**Edwina Hart MBE OStJ AM**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Our ref: SF/EH/0620/09
Your ref:

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA
English Enquiry Line: 0845 010 3300
Fax: 029 2089 8131
E-Mail:Correspondence.Edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA
Llinell Ymholiadau Cymraeg: 0845 010 4400
Ffacs: 029 2089 8131
E-Bost:Correspondence.Edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Jonathan Morgan AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Chwefror 2010

NODYN PELLACH AR ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS (3) 02-09, GWASANAETHAU THERAPI OCSIGEN YN Y CARTREF

Mae eich pwyllgor wedi gofyn am nodyn ffurfiol ar yr arbedion ariannol a wnaed yn sgil cyflwyno'r contract Therapi Ocsigen yn y Cartref. Mae'r wybodaeth isod yn dangos bod GIG Cymru wedi gwneud arbedion wrth gyflenwi'r gwasanaeth therapi ocsigen yn y cartref i gleifion yng Nghymru.

Mae'r wybodaeth o gyfrifon ariannol y 22 Bwrdd Iechyd Lleol gynt ar gyfer blynyddoedd ariannol 07/08 a 08/09 yn dangos bod y gwariant cyffredinol ar y contract therapi ocsigen yn y cartref wedi gostwng £44,000 yn 08/09 ar sail ffigurau gwariant y Byrddau Iechyd Lleol o £7.191 miliwn yn 07/08 a £7.147 miliwn yn 08/09. O gymharu'r ffigurau hyn â rhagolwg gwariant yr Adran Iechyd ar gyfer Cymru yn 07/08 a 08/09, sef £7.3 miliwn a £7.8 miliwn, yn eu trefn, gwelir bod GIG Cymru yn arbed arian drwy'r gwasanaeth hwn.

Ni allaf ddweud i sicrwydd a yw'r arbedion hyn yn ganlyniad uniongyrchol i ddefnyddio'r gwasanaeth asesu cleifion. Er hynny, rwyf wedi ysgrifennu at Gadeiryddion y 7 Bwrdd Iechyd Lleol newydd i sicrhau eu bod yn blaenoriaethu ac ehangu'r gwasanaeth asesu cleifion ymhellach, er mwyn sicrhau rhagor o arbedion i GIG Cymru wrth gyflenwi'r gwasanaeth hwn i gleifion yn ystod gweddill cyfnod y contract.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn fuddiol ichi.